**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
**Ymgynghoriad: Costau Byw**
**Gan: National Energy Action (NEA) Cymru**

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae National Energy Action (NEA) yn elusen tlodi tanwydd genedlaethol sy'n dymuno sicrhau y gall pawb fforddio cadw eu cartrefi'n gynnes ac yn ddiogel.[1] Ac eto erbyn hyn - efallai yn fwy nag erioed - mae cyfuniad gwenwynig o brisiau ynni uchel, incwm isel a thai aneffeithlon yn gwadu hyn i gannoedd ar filoedd o bobl yng Nghymru.

1.2 Rydym yn croesawu'r cyfle hwn i helpu i gyfeirio ymchwiliad y Pwyllgor i effaith economaidd a gwledig pwysau costau byw – gan ganolbwyntio'n benodol ar ynni domestig – a pha gefnogaeth bellach y gallai fod ei angen dros y misoedd nesaf, yn enwedig i'r rhai sy'n byw ar yr incwm isaf, yn y cartrefi lleiaf effeithlon.

## 2. Beth yw effeithiau economaidd tebygol y pwysau ar gostau byw?

2.1 Dros y misoedd diwethaf, rydym wedi gweld prisiau ynni'n codi i lefelau digynsail, sydd yn aml yn amhosib i'w fforddio. Cododd y cap ar brisiau ynni 54% ar 1 Ebrill, gan ddyblu cost y bil nwy a thrydan tanwydd deuol cyfartalog i bob pwrpas mewn 18 mis i £2,000 y flwyddyn.[2] Yn dilyn y rhyfel trasig yn Wcráin, disgwylir y byddwn yn gweld cynnydd pellach, sylweddol ym mis Hydref. Yn y cyfamser, mae'r rhai sy'n dibynnu ar olew gwresogi eisoes wedi gweld eu prisiau'n fwy na threblu.

2.2 Bydd y cynnydd hwn mewn prisiau ynni'n effeithio ar bron bob un ohonom. Fodd bynnag, er y gall rhai ysgwyddo'r cynnydd, i rai eraill mae'r sefyllfa'n amhosib. I bobl ar yr incwm isaf, sy'n byw yn y cartrefi lleiaf effeithlon, mae cost gynyddol gwasanaeth hanfodol yn ddinistriol a nhw fydd yn cael eu taro galetaf ganddo.

2.3 Mae Llywodraeth Cymru yn amcangyfrif y gallai 45% o holl aelwydydd Cymru (h.y. 614,000) fod mewn tlodi tanwydd bellach, gan ddilyn yr ymchwydd yn y cap ar brisiau ar 1 Ebrill. Gallai hyd at 8% o'r holl aelwydydd (115,000) fod mewn tlodi tanwydd difrifol, gan orfod gwario mwy nag 20% o'u hincwm dim ond i gadw'n ddigonol o gynnes.

2.4 Mae'r ymchwydd mewn prisiau ynni cynyddol yn bwrw aelwydydd incwm is yn anghymesur, gan fod angen iddynt wario cyfran uwch o'u hincwm ar ynni. Mae'n destun pryder bod Llywodraeth Cymru yn rhagweld y gallai hyd at 98% o'r holl aelwydydd incwm is yng Nghymru (217,700) fod mewn tlodi tanwydd erbyn hyn, a rhagwelir y bydd hyd at 41% (91,700) mewn tlodi tanwydd difrifol.[3]

2.5 O ganlyniad i'r argyfwng ynni a chostau byw rydym wedi gweld, a byddwn yn parhau i weld, niferoedd annerbyniol o bobl yn wynebu amodau enbyd, heb unrhyw ddewis ond cyfyngu'n sylweddol ar eu defnydd o ynni, ymdopi heb wres a phŵer, a syrthio i ddyled gynyddol, sy'n cael effaith ganlyniadol ar yr economi ehangach.

2.6 Wrth i aelwydydd fynd i ôl-ddyledion gyda'u biliau ynni, mae'r posibilrwydd o orfod cael mesurydd rhagdalu'n codi'n sylweddol, a chyda'r posibilrwydd o golli mynediad at ynni os na

allant fforddio ychwanegu credyd. Mae defnyddwyr rhagdalu – sydd eisoes yn fwy tebygol o fod ar incwm isel, â chredyd gwael, ac mewn dyled ddifrifol – yn talu premiwm gyda chostau uwch i'w talu, a rhaid iddynt ymdrechu i gynnal taliadau tuag at ddefnydd parhaus ar yr un pryd ag ad-dalu ôl-ddyledion, gan olygu bod ceisio fforddio ychwanegu credyd at y mesurydd yn mynd yn bryder bob dydd sylweddol.[4]

2.7 Mae effaith tlodi tanwydd a dyled tanwydd ar iechyd corfforol a meddyliol pobl, a hefyd ar y gwasanaethau iechyd sy'n eu cefnogi, yn ddifrifol. Amcangyfrifir eisoes bod tai o ansawdd gwael yn costio tua £95m i'r GIG yng Nghymru bob blwyddyn[5] ac ni fydd y sefyllfa ond yn debygol o waethygu wrth i ni nesáu at y misoedd oerach.

**3. Sut mae'r pwysau ar gostau byw yn effeithio ar gymunedau gwledig, ac i ba raddau y mae'r pwysau y maent yn eu hwynebu'n wahanol i'r rhai mewn ardaloedd trefol?**

3.1 Yn 2018, roedd aelwydydd sy'n byw mewn ardaloedd gwledig 40% yn fwy tebygol o fod yn byw mewn tlodi tanwydd na'r rhai mewn ardaloedd trefol. Ar y pryd, amcangyfrifwyd bod 14% o'r holl aelwydydd mewn lleoliadau gwledig mewn tlodi tanwydd, o'i gymharu â 10% o'r holl aelwydydd sy'n byw mewn ardaloedd trefol.[6]

3.2 Mae aelwydydd mewn cymunedau gwledig yn aml yn dibynnu ar danwyddau drutach, megis olew neu LPG, nad ydynt yn elwa o'r un mesurau diogelu na rheoleiddio â nwy a thrydan. Yn ddiweddar, mae defnyddwyr sy'n dibynnu ar danwydd heblaw nwy wedi gweld prisiau'n fwy na threblu, ac adroddwyd bod llawer wedi cael eu bwrw gan broblemau cyflenwi dros y misoedd diwethaf.

3.3 Nid yw'r farchnad olew gwresogi yn dod o dan gap prisiau Ofgem ac awgryma adborth anecdotaidd gan randdeiliaid NEA fod amrywiadau eithafol mewn prisiau wedi arwain cyflenwyr i ohirio arferion prisio arferol, gan olygu bod aelwydydd yn gorfod archebu olew heb gael cadarnhad o'r pris y byddant yn ei dalu amdano tan y diwrnod cyflenwi. I lawer o bobl eraill, mae prisiau wedi bod yn rhy uchel, yn syml maent wedi gorfod mynd hebddo.

3.4 Mae aelwydydd oddi ar y cyflenwad nwy yn tueddu i fod mewn lleoliadau gwledig, yn aml iawn mewn cartrefi hŷn sydd wedi'u hinswleiddio'n wael.[7] Mae gan Gymru gyfran fawr o eiddo aneffeithlon â waliau solet, gyda niferoedd uwch mewn ardaloedd gwledig. Mae effeithlonrwydd ynni gwael yn sbardun allweddol i dlodi tanwydd ac roedd mwy nag 80% o aelwydydd sy'n dlawd o ran tanwydd yng Nghymru yn 2018 yn byw mewn cartrefi aneffeithlon[8]; yn uwch nag mewn unrhyw wlad arall yn y DU. Mae'r gorgyffwrdd hwn wedi gadael llawer o aelwydydd tlotaf Cymru yn fwy agored i'r cynnydd anferth mewn prisiau ynni.

3.5 Mae hyn wedi'i ddwysáu gan yr hyn sydd yn aml yn ofyniad i brynu tanwydd heblaw nwy ymlaen llaw, ochr yn ochr â materion fel premiymau teithio gwledig, unigedd ac allgáu digidol. Cred NEA fod yr angen am ddarpariaethau pwrpasol ac wedi'u teilwra, sydd â'r nod o daclo tlodi tanwydd gwledig, yn fater cynyddol ddybryd (fel yr argymhellwyd gan ymchwiliad Bwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig blaenorol y Senedd i dlodi tanwydd yn 2019).[9]

**4. Pa mor effeithiol yw'r mesurau cymorth y mae llywodraethau Cymru a'r DU wedi'u rhoi ar waith, a pha gymorth pellach y gallai fod ei angen dros y misoedd i ddod?**

4.1 Er clod iddi, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi pecyn gwerth £380m o fesurau estynedig yn ddiweddar i helpu pobl gyda'r argyfwng costau byw.[10]

4.2 Mae hyn yn cynnwys darparu ail daliad y Cynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf o £200 yn ddiweddarach eleni, i helpu aelwydydd gyda'r ymchwydd mewn costau biliau ynni, ehangu cymhwysedd i gynnwys mwy o aelwydydd mewn angen, gan gynnwys pensiynwyr sy'n gymwys i gael Credyd Pensiwn yn ogystal â'r rhai sy'n hawlio budd-daliadau oedran gweithio seiliedig ar brawf modd. Mae hyn yn newyddion i'w groesawu ac yn rhywbeth y mae NEA wedi galw amdano ochr yn ochr â rhanddeiliaid allweddol eraill.

4.3 O ystyried i nifer cymharol fach o bobl fanteisio ar daliad cyntaf y Cynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf a wnaed yn gynharach yn y flwyddyn, gyda lefelau amrywiol ar draws awdurdodau lleol, a thystiolaeth anecdotaidd o wahanol arferion ymgysylltu a phrosesu, mae NEA o'r farn ei bod yn allweddol yn awr i Lywodraeth Cymru werthuso'r cynllun ac yn y pen draw gymryd pob cam i sicrhau bod y taliad nesaf yn cyrraedd cynifer o aelwydydd cymwys â phosib. Dylid talu hyn cyn mis Hydref, er mwyn helpu i atal pobl rhag mynd heb wres a phŵer yn ystod y misoedd oeraf.

4.4 Mae ymateb Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnwys parhau â thaliadau cymorth brys o dan ei Chronfa Cymorth Dewisol i helpu aelwydydd oddi ar y cyflenwad nwy mewn caledi ariannol i dalu am olew neu LPG ychwanegol. Gan ddilyn galwadau gan NEA a Chynghrair Tlodi Tanwydd Cymru, mae'r cymorth hwn bellach ar gael drwy gydol y flwyddyn 2022/23, fel y gall pobl gael mynediad i gymorth pan fydd ei angen arnynt, gan ddarparu mwy o sicrwydd cyn y misoedd oerach a mynediad at daliadau brys sydd yr un mor deg ag y rhai i bobl sydd ar y cyflenwad nwy.

4.5 Dylid nodi, fodd bynnag, nad yw gwerth y taliadau sydd ar gael yn diwallu'r angen presennol, o ystyried costau esgynnol y tanwyddau hyn. Er enghraifft, yr uchafswm dyfarniad ar gyfer olew yw £250 o hyd, sydd bellach yn annigonol i brynu'r isafswm maint o olew gwresogi. Mae Cynghrair Tlodi Tanwydd Cymru wedi cynghori Llywodraeth Cymru i ystyried ac adolygu'r lefel o gymorth ariannol sydd ar gael yn rheolaidd. Er mwyn cyflawni'r canlyniad a fwriedir, mae'n bwysig nad yw gwerth y taliad yn gostwng mewn termau real a'i fod yn darparu'r gwerth angenrheidiol o ran cymorth a phŵer pwrcasu.

4.6 Mae'n hanfodol bwysig hefyd nad ydym yn colli golwg ar yr angen dybryd am uwchraddio effeithlonrwydd ynni ein tai presennol yng Nghymru. Cartrefi yw'r rhain na ellir eu cadw'n gynnes, yn aml am unrhyw gost resymol.

4.7 Mae cartrefi cynnes a diogel wrth wraidd taclo tlodi tanwydd a phontio mewn ffordd deg a fforddiadwy i sero net. Yn ddiweddar mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar ddyfodol ei mecanwaith cyflwyno allweddol ar gyfer taclo tlodi tanwydd, sef y *Rhaglen Cartrefi Clyd*[11], ac mae Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd wedi arwain ymchwiliad byr ar hyn o beth[12].

4.8 Cred NEA fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau y bydd y Rhaglen nesaf yn:

- targedu'r 'gwaethaf yn gyntaf', gan ganolbwyntio ar godi aelwydydd ar yr incwm isaf yn y cartrefi lleiaf effeithlon allan o dlodi tanwydd;
- mabwysiadu ymagwedd mesurau lluosog, 'ffabrig yn gyntaf' briodol, gan gynnwys rhaglen gymorth wedi'i theilwra sydd â'r nod o ymdrin â'r heriau penodol a wynebir mewn ardaloedd gwledig;

- hygyrch i bob aelwyd sy'n gymwys i gael cymorth a bod mesurau'n cael eu cefnogi gan gyngor cynhwysfawr;
- cael ei gefnogi gan gyllid digonol a sail gyfreithiol gadarn i gyflawni'r uchelgais a nodwyd yng Nghynllun Trechu Tlodi Tanwydd Llywodraeth Cymru.

4.9 Yn ddi-os mae'r Rhaglen Cartrefi Clyd wedi gwneud rhai gwelliannau sydd i'w croesawu'n frwd i fywydau aelwydydd mewn tlodi tanwydd dros y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, mae ei esblygiad wedi golygu'n gynyddol na fu iddi gyflawni ei 'hymagwedd tŷ cyfan' wreiddiol yn llawn, yn hytrach mae wedi dibynnu'n drwm ar osod boeleri a gosodiadau gwres canolog newydd, gyda llawer llai o fesurau inswleiddio. Mae hyn wedi bod ar draul uwchraddiadau pwrpasol eraill i ffabrig yr adeilad a fyddai'n darparu manteision hirdymor ac ateb parhaol o ran biliau is drwy ostwng y galw am ynni. Mae hefyd wedi golygu bod y cynlluniau wedi methu ag ymdrin â'r heriau penodol sy'n gysylltiedig â thaclo tlodi tanwydd gwledig. Am ragor o wybodaeth, byddem yn gwahodd aelodau'r Pwyllgor i weld ein hymateb i ymchwiliad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y cyfeirir ato yn y ôl-nodyn hwn.[13]

4.10 Yn olaf, mae NEA o'r farn bod gan Lywodraeth y DU y cyfle a'r adnoddau i gefnogi'r aelwydydd tlotaf, ond y bu ei hymateb hyd yma yn druenus o annigonol.

4.11 Cynigiwyd ehangu'r Cynllun Gostyngiad Cartrefi Cynnes cyn yr argyfwng ac nid yw'n ymateb i'r lefel bresennol o brisiau ynni. Ac mae 'Ad-daliad Bil Ynni' gwerth £200 oddi ar filiau trydan ym mis Hydref – y mae'n rhaid ei ad-dalu dros bum mlynedd – yn gwbl amhriodol ar gyfer aelwydydd incwm isel sy'n agored i niwed prin y gallant ei fforddio eisoes.

4.12 Nid yw'r mesurau hyn yn gwneud fawr ddim i amddiffyn y rhai sydd fwyaf mewn angen rhag niwed difrifol ac mae NEA yn parhau i alw ar Lywodraeth y DU ac Ofgem i:

- eithrio aelwydydd sy'n agored i niwed, yn benodol defnyddwyr ynni rhagdalu, rhag talu'r ardoll o £40 y flwyddyn a gynllunnir ar hyn o bryd i ad-dalu'r Ad-daliad Bil Ynni 'gwres nawr, talu'n ddiweddarach' o £200;
- darparu cymorth ychwanegol i aelwydydd incwm isel mewn angen cyn y gaeaf nesaf, er enghraifft drwy Ostyngiad Cartrefi Cynnes mwy sy'n cefnogi mwy o bobl yn uniongyrchol, neu drwy ehangu'r Taliad Tanwydd Gaeaf y tu hwnt i bensiynwyr;
- datblygu tariff cymdeithasol sy'n ychwanegol at fesurau diogelu presennol y farchnad ynni, gan ddarparu pris ynni sy'n is na chost i aelwydydd incwm isel;
- helpu i glirio dyledion cyfleustodau drwy ddechrau cynllun taliadau cyfatebol, gan gyfrannu punt am bob punt y mae aelwyd yn ei gwneud tuag at eu had-daliadau dyled cyfleustodau.

4.13 Mae'n rhaid i lywodraethau Cymru a'r DU barhau i weithredu cyn unrhyw gynnydd uwch fyth mewn prisiau er mwyn i ni osgoi'r gwaethaf o gartrefi oer, dyledion ac afiechyd diangen. Bydd methu â gwneud hynny'n arwain at argyfwng tlodi tanwydd trychinebus a fydd yn dinistrio bywydau a chymunedau am flynyddoedd i ddod.

**DIWEDD**

---

[1] Mae National Energy Action (NEA) Cymru yn eirioli dros wneud cartrefi cynnes yn flaenoriaeth genedlaethol, yn darparu llwyfannau i sefydliadau cymunedol ddod ynghyd i rannu barn ac arfer gorau, ac yn gweithio gyda phartneriaid i

ddarparu hyfforddiant a chymwysterau cenedlaethol gysylltiedig â thlodi tanwydd, dyled tanwydd, cynhesrwydd fforddiadwy a chyngor ymarferol ar ynni i staff sy'n wynebu'r gymuned, ac i gefnogi aelwydydd incwm isel ac agored i niwed anghenus yn uniongyrchol. Gweler www.nea.org.uk.

[2] Mae'r cap ar brisiau yn cyfyngu ar y cyfraddau y gall cyflenwr eu codi am eu tariffau diofyn. Mae'r rhain yn cynnwys y tâl sefydlog a'r pris am bob kWh o drydan a nwy (yr unedau y cyfrifir eich bil ohonynt). Nid yw'n rhoi cap ar gyfanswm eich bil, a fydd yn amrywio gan ddibynnu ar faint o ynni rydych chi'n ei ddefnyddio. Cododd y cap ar brisiau 54% ar 1 Ebrill 2022. Gwelodd y rhai ar dariffau diofyn a oedd yn talu drwy ddebyd uniongyrchol gynnydd cyfartalog o £693, o £1,277 i £1,971 y flwyddyn. Gwelodd cwsmeriaid rhagdalu gynnydd o £708 ar gyfartaledd, o £1,309 i £2,017 y flwyddyn.

[3] Gweler https://llyw.cymru/amcangyfrifon-tlodi-tanwydd-wediu-modelu-ar-gyfer-cymru-prif-ganlyniadau-ym-mis-hydref-2021 Noder: Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru amcangyfrifon newydd wedi'u modelu ar gyfer tlodi tanwydd yng Nghymru ar 13 Ebrill 2022. Mae'r rhain wedi'u hailgyfrifo ar gyfer mis Hydref 2021 a'u diwygio i ystyried prisiau tanwydd o 1 Ebrill 2022. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl cyhoeddi dadansoddiad manylach o'r amcangyfrifon wedi'u modelu hyn ddiwedd y gwanwyn.

[4] Mae cyfran fwy o aelwydydd yng Nghymru yn defnyddio mesuryddion rhagdalu o gymharu â Lloegr (c. 18% neu 200,000). Mae presenoldeb mesuryddion rhagdalu hefyd yn amrywio'n fawr yn ôl daliadaeth. Yn 2018, roedd gan 5% o anheddau perchen-feddianwyr un ar gyfer trydan, o'i gymharu â 23% o anheddau rhent preifat, a 46% o dai cymdeithasol. Roedd y darlun yn debyg ar gyfer nwy. Mae'r cap ar brisiau wedi'i osod yn uwch ar gyfer defnyddwyr rhagdalu o'i gymharu â'r rhai sy'n talu drwy ddebyd uniongyrchol.

[5] Gweler *Gwneud Gwahaniaeth Tai ac Iechyd: Yr Achos dros Fuddsoddi*, Iechyd Cyhoeddus Cymru, yn https://icc.gig.cymru/newyddion/cyhoeddiadau/gwneud-gwahaniaeth-tai-ac-iechyd/icc-gwneud-gwahaniaeth-tai-ac-iechyd-yr-achos-dros-fuddsoddi-pdf. Noder: Amlyga adroddiad Iechyd Cyhoeddus Cymru fod pob £1 sy'n cael ei gwario ar wella cynhesrwydd mewn aelwydydd agored i niwed yn creu £4 mewn buddion iechyd. Gallai fod bron i 40% yn llai o dderbyniadau i'r ysbyty hefyd ar gyfer rhai afiechydon gysylltiedig ag oerfel ymysg pobl â chartrefi sydd wedi'u huwchraddio.

[6] Gweler *Amcangyfrifon tlodi tanwydd ar gyfer Cymru, 2018: diwygiedig,* Llywodraeth Cymru, yn https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-12/amcangyfrifon-tlodi-tanwydd-ar-gyfer-cymru-2018.pdf

[7]Nododd *Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2018* Llywodraeth Cymru fod gan Gymru rai o'r stoc adeiladu hynaf a lleiaf effeithlon o ran gwres yng ngogledd Ewrop, gyda 26% o anheddau wedi'u hadeiladu cyn 1919, a 52% wedi'u hadeiladu cyn 1965. Mae gan Gymru hefyd gyfran fawr o eiddo aneffeithlon â waliau solet, gyda niferoedd uwch mewn ardaloedd gwledig. Gweler: https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-10/arolwg-cyflwr-tai-cymru-effeithlonrwydd-ynni-anheddau-ebrill-2017-i-mawrth-2018-794.pdf.

[8] Gweler https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-12/amcangyfrifon-tlodi-tanwydd-ar-gyfer-cymru-2018.pdf

[9] Gweler *Tlodi Tanwydd yng Nghymru,* Pwyllgor Newid yn yr Hinsawdd, Yr Amgylchedd a Materion Gwledig (2020) yn https://senedd.cymru/laid%20documents/cr-ld13147/cr-ld13147-w.pdf

[10] Gweler https://llyw.cymru/mwy-na-330m-i-helpu-pobl-i-fynd-ir-afael-ar-argyfwng-costau-byw

[11] Gweler https://llyw.cymru/cynigion-ar-gyfer-fersiwn-nesaf-y-rhaglen-cartrefi-cynnes

[12] Gweler https://busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=38494

[13] Gweler https://busnes.senedd.cymru/documents/s122018/FP12-%20National%20Energy%20Action%20Cymru.pdf. Noder: Rhoddodd NEA dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar 7 Mawrth, y gellir ei gweld ar wefan y Senedd yn https://busnes.senedd.cymru/ieIssueDetails.aspx?IId=38494&Opt=3